# HUGHES, WILLIAM ROBERT (1798? - 1879), meddyg cancr a'r 'ddafaden wyllt'

**Enw:** William Robert Hughes
**Dyddiad geni:** 1798?
**Dyddiad marw:** 1879
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** meddyg cancr a'r 'ddafaden wyllt'
**Maes gweithgaredd:** Meddygaeth
**Awdur:** Robert (Bob) Owen

Ganwyd yn Tanyrallt, plwyf Abererch, Sir Gaernarfon, o deulu y dywedid fod ganddynt allu eithriadol i wella'r ddafaden wyllt, etc. Ar ôl priodi symudodd i fyw yn Mur Crysto, Llangybi, 1821. Yr oedd yn gyfeillgar â David Owen ('Dewi Wyn o Eifion'), Ebenezer Thomas ('Eben Fardd'), a Robert Williams ('Robert ap Gwilym Ddu'). Gymaint oedd ei allu fel y gelwid ef ' Dewin y Cennin.' Ymfudodd i U.D.A. yn 1845, gan ymsefydlu yn Columbus, Wisconsin; dywedir mai yn ei d ef yno y traddodwyd y bregeth Gymraeg gyntaf yn nhalaith Wisconsin. Parhaodd gyda'i waith o drin cancr a'r 'ddafaden wyllt' yn America. Bu farw 15 Mawrth 1879.

## Awdur

**Robert (Bob) Owen**, (1885 - 1962)

## Ffynonellau


*Y Brython* (Tremadog), 1859, 221; 1860, 32

*Y Cenhadwr Americanaidd sef cylchgrawn gwybodaeth fuddiol a dyddorawl i Gymry America / The American messenger*

(Efrog Newydd 1840-1901), 1867, 374; 1879, 154

*Y Cyfaill cylchgrawn misol y Presbyteriaid Cymreig yn America* (Utica), 1879, 270-1


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20821246


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu